# Adroddiad Arolygu

**Gardens Care Home**

**Castell-nedd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gardens Care Home

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gardens Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | Pedwar |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Hydref 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Gardens Care Home yn wasanaeth bach ar gyrion Castell-nedd, sy'n cynnig gwasanaeth addas sy'n cefnogi pobl ag anghenion preswyl. Mae'r cartref yn darparu awyrgylch cyfeillgar a siaradodd y bobl yn agored am eu profiadau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus. Mae gan y bobl gynlluniau personol ac asesiadau risg digonol er mwyn diwallu eu hanghenion. Caiff y staff gofal eu cefnogi gan oruchwyliaeth ac arfarniadau da. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar-lein ac maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu hanghenion. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rhoi'n ddiogel. Mae angen gwneud rhywfaint o waith moderneiddio ar y cartref. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol gynllun ar waith er mwyn helpu i wneud y newidiadau sydd eu hangen, yn ei farn ef. Bydd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cyfrannu at y gwaith o addurno ac adnewyddu'r gwasanaeth pan fydd yn cael ei wneud. Mae angen gwella prosesau recriwtio er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlenni a bennir yn y rheoliadau.

## Llesiant

Gall y bobl leisio eu barn a chânt eu hannog i wneud dewisiadau ac maent yn cael eu trin ag urddas a pharch. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl yn rhan o'r broses asesu a chynllunio. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus. Gwelsom fod y staff gofal yn garedig ac yn trin y bobl â pharch, gan sgwrsio â nhw am eu gweithgareddau ar gyfer y diwrnod. Mae gwybodaeth foddhaol ar gael er mwyn helpu'r staff i gyflawni eu canlyniadau. Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau. Mae'r gwasanaeth yn annog cyfathrebu da â pherthnasau. Mae'r bobl, y perthnasau a'r ddogfennaeth yn ategu hyn.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae gan y darparwr bolisi diogelu digonol ar waith. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos hanes o staff yn cael hyfforddiant diogelu ar-lein. Mae'r aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am bryderon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu trin yn dda. Nid yw gwiriadau recriwtio a chyflogi staff bob amser yn cael eu cynnal neu nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlenni a bennir yn y rheoliadau.

Caiff iechyd emosiynol, corfforol a meddyliol y bobl ei gynnal. Mae rhai o aelodau'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers peth amser ac maent yn adnabod arwyddion salwch. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i gael gafael ar weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau brys. Gwelsom nad yw polisïau a gweithdrefnau meddyginiaeth yn cael eu dilyn bob amser. Mae dogfennau yn dangos nad yw cymwyseddau blynyddol mewn meddyginiaeth wedi'u cwblhau. Cadarnhawyd hyn gan y staff. Mae hwn yn faes i'w wella.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sydd ar y cyfan yn cefnogi eu llesiant. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol ac maent wedi'u dodrefnu'n addas. Mae rhai cyfleusterau ar gael sy'n annog annibyniaeth ac yn galluogi'r bobl i dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae angen moderneiddio'r adeilad ac mae ôl traul ar ardaloedd. Ni allai'r bobl ddefnyddio'r gegin am fod angen atgyweirio'r llawr. Fodd bynnag, mae camau yn cael eu rhoi ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn unioni hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi mewn gwasanaeth sy'n cael ei oruchwylio'n ddigonol gan y tîm rheoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob wythnos. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r polisïau na'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal archwiliadau ac adolygiadau. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ddogfennaeth i ategu hyn. Cynhelir yr adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth ond mae angen eu hatgyfnerthu.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi'n dda, gyda chynlluniau personol ac asesiadau risg boddhaol sy'n adlewyrchu eu hanghenion. Gwelsom fod safon y gofal yn foddhaol ac adlewyrchir hyn yn ymatebion ar gyfer y bobl, perthnasau a gweithwyr proffesiynol. Dywedodd y bobl wrthym; *"I have been here a while; I like it here. I like living here, staff make me food and drinks".* Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym eu bod wedi gweld rhyngweithio da rhwng y bobl a'r staff. Mae perthnasau wedi diolch i'r staff am y*"brilliant support"* y maent wedi'i ddarparu i gynnal a chefnogi cydberthnasau.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i ddiogelu'r bobl y mae'n eu cefnogi. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom drafod yr angen i'r rhain gael eu hadolygu bob blwyddyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol, am na welsom unrhyw dystiolaeth o hyn. Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r broses ddiogelu a'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chodi pryderon. Dywedodd y staff wrthym; *"Protect the vulnerable, anything I saw I would approach my manager and expect her to follow this up".* Mae'r cynllunydd hyfforddiant yn dangos bod staff yn cael hyfforddiant diogelu ar-lein yn rheolaidd a chadarnhawyd hyn gan y staff.

Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau a all ddiwallu anghenion y bobl sy'n cael eu cefnogi ganddo. Mae gan y gwasanaeth ddogfen Datganiad o Ddiben sy'n dangos yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben bellach wedi'i adolygu er mwyn cynnwys holl feysydd y gwasanaeth. Mae asesiad risg bellach ar waith er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar y bobl. Mae gan y gwasanaeth broses cyn asesu foddhaol ar waith er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion a chyflawni canlyniadau'r bobl.

Mae angen atgyfnerthu'r systemau ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwelsom nad yw'r polisi meddyginiaeth yn cael ei ddilyn bob amser. Gwelsom enghreifftiau o ddirprwyo'r drefn rhannu meddyginiaeth yn ystod yr arolygiad. Cafodd y mater hwn ei ddwyn i sylw'r rheolwyr a ymdriniodd ag ef ar unwaith. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar feddyginiaeth. Fodd bynnag, ni chaiff cymwyseddau blynyddol mewn meddyginiaeth eu cyflawni gyda'r staff. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Gwelsom y bobl yn gwneud dewisiadau am weithgareddau a bwyd. Dywedodd y bobl wrthym; *"I can't go in the kitchen the floor needs fixing, but I did go in to make drinks".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r eiddo yn adeilad mawr o oes Fictoria sydd â rhai nodweddion hyfryd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhywfaint o waith moderneiddio arno ac mae ôl traul ar rai ardaloedd, yn benodol y gegin, yr ystafelloedd ymolchi a'r cawodydd. Ni allai'r bobl ddefnyddio'r gegin am fod angen atgyweirio'r llawr. Fodd bynnag, mae camau yn cael eu rhoi ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn unioni hyn. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol ac maent wedi'u dodrefnu'n addas. Gwelsom ardal gymunol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd a'i mwynhau gan y bobl, a oedd yn cynnwys dodrefn cyfforddus er eu bod yn hen. Dywedodd y bobl wrthym; *"Yes, I like to sit here (lounge) and watch the telly". "I like cooking programmes and quizzes and I watch coronation street."* Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn ymweld â'r gymuned leol gyda'r staff ac aelodau o'r teulu bob dydd. Gwelsom bobl yn gofyn am gael mynd i siopau lleol ac yn cael cymorth i wneud hynny.

Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i reoli risg i iechyd a diogelwch y bobl. Mae cofnodion diogelwch yn dangos bod archwiliadau yn cael eu cynnal er mwyn nodi problemau ond mae angen atgyfnerthu'r archwiliadau hyn. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gwiriadau dŵr yn cael eu cynnal ond ni welsom unrhyw ddogfennau i ategu hyn. Caiff deunyddiau a allai achosi niwed eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth am bob cynnyrch yn gyfredol mwyach. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau bod profion wedi'u cynnal ar gyfarpar trydanol a'r system dân. Gwnaethom edrych ar gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad ar gyfer dau unigolyn. Mae gweithdrefnau gwagio'r adeilad yn benodol i anghenion yr unigolyn er mwyn sicrhau y gall adael yr adeilad yn ddiogel os bydd angen. Mae cyfleustodau megis nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a gwelsom dystysgrifau. Nid oes unrhyw amserlen lanhau ffurfiol yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae camau yn cael eu rhoi ar waith gan y rheolwr i unioni hyn ac maent yn cael eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfrannu at y gwasanaeth yn rheolaidd, gan gwblhau adroddiadau ar ymweliadau ac adolygiadau o ansawdd y gofal. Gallai'r adolygiad gael ei atgyfnerthu gan gamau gweithredu clir er mwyn i'r rheolwr a'r tîm o staff hwyluso gwelliannau i ansawdd y gofal yn well. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith ond ni welsom unrhyw dystiolaeth eu bod yn cael eu diweddaru a'u hadolygu. Roedd y rheolwr yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth dda am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Roedd y tîm yn fwy na pharod i fod yn agored drwy gydol yr arolygiad. Roedd y gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y rheolwr yn cyfathrebu'n dda gan ddilyn cyngor a roddwyd a chynlluniau cymorth a ddarparwyd. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym, *"The manager has a good presence at the care home".*

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion a gan staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r cynllun hyfforddiant a'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn ategu hyn. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o staff sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef y corff rheoleiddio gofal. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personol pedwar aelod o'r staff a gwelsom nad yw gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal bob amser. Mewn tair ffeil bersonol y gwnaethom edrych arnynt, dim ond un geirda a wiriwyd cyn cyflogi a oedd ar gael ar gyfer tri unigolyn. Mae angen dau a rhaid i un ohonynt gael ei ddarparu gan y cyflogwr blaenorol.
Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal ar y cam cyflogi. Fodd bynnag, nid oedd rhai wedi cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni rheoleiddiol. Aeth y rheolwr i'r afael â hyn yn ddiweddarach. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Cadarnhawyd hyn gan ddogfennaeth a welsom ac wrth siarad â'r staff. Dywedodd y staff wrthym; *"I feel valued by the manager she's helpful and accommodating with the rota, she's amazing".* Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff, a oedd yn golygu

bod angen i'r rheolwr ddod i'r adwy a chyflenwi sifftiau a/neu ddefnyddio staff asiantaeth. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr wrthym hefyd, *“I am interviewing today so hopefully things will get better”.*

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni fod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Soniodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am fuddsoddiadau a oedd wedi'u gwneud megis adnewyddu’r ystafell cysgu i mewn yn yr adeilad er mwyn cefnogi llesiant y staff. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gynlluniau i foderneiddio nac adnewyddu'r ardaloedd cymunol, gan gynnwys y gegin. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn darparu cynlluniau unwaith y byddant wedi'u cadarnhau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Yn ystod yr arolygiad, gwelsom enghreifftiau o ddirprwyo'r drefn rhannu meddyginiaeth. Cadarnhaodd y rheolwr nad oedd y polisi meddyginiaeth yn cael ei ddilyn. Mae hyfforddiant ar feddyginiaeth ar-lein gyda hanner awr o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ac ni chynhelir asesiadau blynyddol o gymhwysedd. | Newydd |
| 35 | Roedd yr arolygiad wedi dangos nad yw ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ar gyfer ffitrwydd staff ac nad oedd tair tystysgrif DBS yn gyfredol (roedd un ohonynt wedi dod i ben sawl blwyddyn yn ôl). Mae dwy o'r pedair ffeil staff ond yn dangos un geirda ac roedd gan y drydedd ail eirda nad oedd wedi'i lofnodi na'i ddyddio. Nid yw saith o'r 10 aelod o'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/08/2023